# Curadur Cynorthwyol Rhaglenni Cyhoeddus
# Pecyn Gwybodaeth ac Ymgeisio

## Cyflwyniad

Artes Mundi yw'r prif sefydliad blaenllaw yng Nghymru sy'n rhoi sylw i waith celf gweledol rhyngwladol, gan greu cyfleoedd unigryw i unigolion a chymunedau lleol i ymgysylltu'n greadigol â materion brys ein hoes mewn ffyrdd sy'n taro tant gyda ni gyd. Rydym yn ymrwymedig i ysgogi deialogau a thrafodaethau, yn rhyngwladol ac yn lleol, sy'n datblygu gwell dealltwriaeth ohonon ni'n hunain, o bobl eraill, a'r cysylltiadau rhwng diwylliannau cyfarwydd ac anghyfarwydd.

Yn 2023, bydd Artes Mundi yn lansio AM10, degfed achlysur yr arddangosfa sydd wedi bod yn digwydd bob dwy flynedd ers 20 mlynedd, gan ddod â chelf gyfoes arloesol o bob cwr o'r byd i Gymru. Dyma'r tro cyntaf y bydd y project yn digwydd ar draws Cymru, gyda phump partner mewn pedair dinas. Rydym am benodi Curadur Cynorthwyol Y Rhaglenni Cyhoeddus a fydd yn cydweithio â'r Curadur Rhaglenni Cyhoeddus, tîm y Cynhyrchwyr Ymgysylltu a staff ehangach Artes Mundi i ddatblygu a chydlynu llwybrau creadigol newydd er mwyn i ragor o bobl allu mwynhau arddangosfa Artes Mundi 10. Bydd Curadur Cynorthwyol Y Rhaglenni Cyhoeddus yn helpu gyda chynllunio, cyflwyno a gwerthuso teithiau, gweithdai a digwyddiadau, yn y cnawd ac ar-lein, sy'n gysylltiedig â'r gwaith a gyflwynir yn yr arddangosfa. I gael gwybod mwy am artistiaid rhestr fer AM10, cliciwch yma.

## Y Rôl

Byddwch yn adrodd wrth y Curadur Rhaglenni Cyhoeddus. Mae hon yn rôl allweddol sy'n ymwneud â chynulleidfaoedd Artes Mundi ac yn swydd bwysig o ran ei chysylltiad â'r tîm Rhaglenni Cyhoeddus. Bwriad y swydd hon yw cynorthwyo gyda chynllunio ymarferol, datblygu cynnwys a chyflwyno Rhaglen Gyhoeddus AM10 – gan gynnwys sgyrsiau, teithiau tywys a gweithdai mewn modd creadigol. Un o'r prif amcanion yw sicrhau fod cynulleidfaoedd, cyfranogwyr a chyfranwyr yn gallu ymgysylltu'n

gyfartal ac yn gyflawn â’n gwaith drwy gynllunio a chyflwyno gweithgareddau sy’n llawn gwybodaeth, yn apelgar ac yn creu profiad cadarnhaol. Y cyfrifoldebau a thasgau, yn y cnawd a thrwy ddulliau digidol, yw:

- Cefnogi wrth weinyddu a chynnal digwyddiadau cyhoeddus wythnosol Artes Mundi gan gynnwys:
  - Cynorthwyo wrth baratoi’r broses ymarferol ar gyfer pob digwyddiad
  - Cysylltu â chyfranogwyr digwyddiadau a’r Cynhyrchwyr Ymgysylltu
  - Cynorthwyo â chyfathrebu a marchnata drwy’r cyfryngau cymdeithasol
  - Rheoli archebu tocynnau
  - Trefnu cefnogaeth o ran mynediad i gynulleidfaoedd a chyfranwyr
  - Darparu cefnogaeth dechnegol ar lwyfannau ar-lein, gan gynnwys Zoom, Instagram, Facebook, YouTube a Vimeo
  - Cefnogaeth wrth gasglu adborth a data gwerthuso
- Arwain teithiau tywys dyddiol a neilltuol i’r cyhoedd a grwpiau sydd wedi rhagarchebu
- Cynorthwyo wrth gynnal gweithgareddau i’r teulu dros y penwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol
- Cynorthwyo wrth gynnal gweithgareddau i ysgolion cynradd ac uwchradd, colegau a phrifysgolion.
- Casglu adborth gan gynulleidfaoedd a chyfrannu tuag at werthuso’r Rhaglen Gyhoeddus
- Cysylltu a chynllunio ar y cyd â’r Curadur Rhaglenni Cyhoeddus a thîm ehangach Artes Mundi

## Partneriaid Lleoliad a Lleoliadau Gwaith

Mae ein partneriaid lleoliad ar gyfer Artes Mundi 10 yn cynnwys:
- Chapter, Caerdydd
- Oriel Gelf Glynn Vivian, Abertawe

- Mostyn, Llandudno
- Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
- Oriel Davies, Y Drenewydd.

Un o ofynion y rôl hon yw y gall Curadur Cynorthwyol Y Rhaglenni Cyhoeddus deithio i oleiaf un o'r lleoliadau hyn i wneud gwaith yn y cnawd. O ganlyniad, rydym yn annog ceisiadau gan bobl sy'n byw'n agos at y lleoliadau – Caerdydd, Abertawe, Llandudno a'r Drenewydd.

## Y Person

Rydym yn chwilio am unigolyn sy'n gallu dangos ymrwymiad i gyrraedd y grwpiau a chymunedau ehangaf posibl er mwyn annog ymgysylltiad â chelfyddyd gweledol cyfoes. Efallai y bydd hyn yn cynnwys gorfod delio gydag agweddau neu ymddygiad heriol, ond rydym yn awyddus i glywed gan bobl sy'n gallu ymdrin yn ddychmygus ac yn greadigol â hyn drwy gynhyrchu syniadau sy'n esgor ar weithgareddau sy'n ysgogol a llawn gwybodaeth. Rydym am weithio gyda phobl sydd:

- Yn agored, yn chwilfrydig ac â thân yn eu bol o ran diwylliant, y celfyddydau a chymunedau Cymru
- Â diddordeb mewn rhannu eu syniadau ac mewn gwrando ar bobl eraill
- Yn mwynhau dysgu pethau newydd ac ymgymryd â heriau
- Yn gallu gweithio'n annibynnol ond sy'n gyfforddus wrth ofyn am gefnogaeth ac arweiniad

Cefnogir y rôl yma'n bennaf gan y Curadur Rhaglenni Cyhoeddus ond byddwch hefyd yn cysylltu â thîm cyfan Artes Mundi ac yn cael eich cefnogi ganddynt.

Mae'r sgiliau a gwybodaeth hanfodol yn cynnwys:
- Cynllunio, trefnu a chydgysylltu digwyddiadau ac adnoddau dychmygus a chreadigol
- Cynhyrchu prosiectau gorffenedig gan gadw at amserlenni

- Dadansoddi, blaenoriaethu a threfnu'ch gwaith yn annibynnol yn ogystal â gweithio fel rhan o dîm
- Sgiliau cyflwyno a chyfathrebu rhagorol, gan gynnwys ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o lefelau a phob oedran, a'r gallu i sgwrsio ag amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd
- Cydweithio â phobl o wahanol gefndiroedd ar draws amrywiaeth eang o lefelau a chyfrifoldebau
- Mwynhau dysgu pethau newydd ac ymgymryd â heriau
- Y gallu i flaenoriaethu a gweithio ar sawl tasg ar yr un pryd
- Bod â thân yn dy fol dros ddiwylliant a'r celfyddydau a'u swyddogaeth yn y gymdeithas
- Bod â sgiliau gwybodaeth a chyfrifiadurol helaeth, yn eu plith pecyn MS Office gan gynnwys Word, Outlook ac Excel

Yn ogystal, mae'r sgiliau a gwybodaeth dymunol ar gyfer y rôl yma'n cynnwys:

- Meddu ar sgiliau a gwybodaeth helaeth o ran llwyfannau ar-lein gan gynnwys Zoom, Eventbrite, Instagram, Facebook, YouTube a Vimeo
- Profiad neu ddealltwriaeth o sut i weithio gyda phlant a phobl ifanc
- Profiad a dealltwriaeth o sut i weithio gydag ysgolion a cholegau

## Yr hyn a wnawn i'ch galluogi i wneud eich gorau glas

Bydd Curadur Cynorthwyol Y Rhaglenni Cyhoeddus yn cydweithio'n agos â'r Curadur Rhaglenni Cyhoeddus a fydd yn eich cefnogi'n llwyr yn eich gwaith. Byddwch yn cwrdd yn rheolaidd dros Zoom, a lle bo'n bosibl drwy gyfarfodydd yn y cnawd.

Rydym yn ymrwymedig i greu amgylchedd sy'n meithrin cyfranogaeth ystyrlon a phrofiadau dysgu cadarnhaol. Bydd tîm curadurol Artes Mundi yn cynnig arweiniad gan weithredu fel cynghorwyr a mentoriaid i chi gyda chefnogaeth ychwanegol gan y tîm ehangach. Byddwch yn elwa o fod yn rhan o dîm craidd bach; byddwch yn ymwneud yn ddyddiol ag aelodau allweddol o'r arweinyddiaeth artistig gan gynnwys y cyfarwyddwr yn ogystal â chyfrannu at gyfarfodydd cynllunio a rhaglennu ffurfiol.

Mae Artes Mundi yn ymrwymedig i sicrhau cyfle cyfartal lle bynnag y bo'n bosibl gan gynnig cefnogaeth gyda chostau ychwanegol a fydd yn galluogi'r ymgeiswyr llwyddiannus i wneud eu gwaith gorau. Cysylltwch â ni'n uniongyrchol os oes unrhyw beth penodol yr hoffech godi gyda ni.

Bydd cyfleoedd sylweddol i feithrin eich hyder a datblygu'ch rhwydweithiau. Byddwch yn derbyn gwahoddiadau i agoriadau arddangosfeydd a digwyddiadau a chyfleoedd rhwydweithio creadigol. Ar ddiwedd y contract hwn, byddwn yn eich helpu i baratoi ar gyfer cyfleoedd eraill, gan gynnwys eich cefnogi wrth ysgrifennu ceisiadau, paratoi at gyfweliadau a rhoi geirda i ddarpar gyflogwyr.

## Arferion Cynhwysol

Nod Artes Mundi yw dod yn sefydliad gwirioneddol gynhwysol gyda gweithlu a chynulleidfa sy'n meddu ar brofiadau bywyd sydd yr un mor amrywiol â'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu. Mae hyn yn sylfaenol i'n llwyddiant yn y dyfodol a'n gallu i barhau i gyfrannu i ddiwylliant a chymdeithas yng Nghymru a'r DU.

Mae Artes Mundi wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau cydraddoldeb yn ein holl waith ac rydym yn cydweithredu i greu diwylliant gwaith cynhwysol. Rydym yn cydnabod nad yw safbwyntiau a phrofiadau llawer o bobl wedi eu cynrychioli'n deg yn ein gwaith ac yn y sector celfyddydau yng Nghymru; mae hyn yn cynnwys pobl
sy'n amrywiol yn ethnig a diwylliannol, ac sy'n profi hiliaeth yn ein cymdeithas, pobl Fyddar, anabl a niwroamrywiol a phobl o gymunedau dosbarth gweithiol. Rydym yn croesawu'n arbennig ymgeiswyr sy'n perthyn i un o'r profiadau neu'r diwylliannau hyn, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg.

Noder y bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal ar-lein, drwy ddefnyddio Zoom neu blatfformau eraill ar gais. Darperir rhagor o wybodaeth a chyfarwyddiadau i ymgeiswyr a gaiff eu gwahodd am gyfweliad. Bydd y panel cyfweld yn cynnwys aelodau o dîm Artes Mundi ac aelodau o'r

Rhwydwaith Held-Space. Mae cymorth ariannol ar gael i unrhyw un sydd angen cymorth er mwyn cymryd rhan mewn cyfweliadau ar-lein.

## Telerau'r Swydd

Cynigir y swydd hon fel contract 7 mis ar sail llawrydd. Mae ffi gynhwysol o £10,800 ar gael am 3.5 diwrnod/26 awr yr wythnos a ragwelir i'w dalu mewn rhandaliadau misol drwy anfoneb.

Yr oriau gwaith cyffredin yn y swyddfa yw 9:30yb – 5:30yp. Gofynnir i ddeiliad y swydd gyflwyno ac ymgymryd â gwaith ar rai nosweithiau a phenwythnosau. Rhoddir rhybudd priodol.

Mae'r swydd hon yn cynnwys gweithio gyda phlant ac oedolion bregus. Gall eich cynnig cyflogaeth fod yn ddarostyngedig i ddatgelu boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Gallai methiant i ddatgelu gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag unrhyw euogfarnau arwain at dynnu'n ôl unrhyw gynnig cyflogaeth.

## Sut i Wneud Cais

Dylai ymgeiswyr wneud cais am y rôl yma drwy ddefnyddio'r **Ffurflen Gais a'r Ffurflen Monitro Cyfleoedd Cyfartal**, a'u cyflwyno drwy e-bost at opportunities@artesmundi.org gan nodi **Curadur Cynorthwyol Rhaglenni Cyhoeddus** yn y pennawd.

Ceir manylion am opsiynau ymgeisio eraill yn y nodiadau arweiniol a geir yn y ddogfen hon.

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:** Dydd Llun, 28 Awst 2023 am 6yh
**Cynhelir cyfweliadau:** Dydd Iau 7 Medi
**Y dyddiad dechrau delfrydol:** 18 Medi 2023

**Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.**

# Curadur Cynorthwyol Rhaglenni Cyhoeddus ar gyfer Artes Mundi 10
# Ffurflen Gais

| |
|---|
| Cyfeirnod<br>At ddefnydd swyddfa yn unig |

| | |
|---|---|
| Enw(au) cyntaf | Cyfenw |
| Cyfeiriad | |
| Cod Post | |
| Ffôn | Symudol |
| E-bost | |

| |
|---|
| Sut glywsoch chi am y rôl yma? |

*Bydd yr adran hon yn cael ei gwahanu o'ch ffurflen gais wrth ei derbyn ac ni fydd yn chwarae unrhyw ran yn y broses ymgeisio.*

| Cyfeirnod<br>At ddefnydd swyddfa yn unig |
| --- |

DATGANIAD ATEGOL

Dyma'ch cyfle i sôn yn benodol ynglŷn â pham rydych yn dymuno gwneud cais am y swydd a'r rhinweddau sy'n golygu y dylech fod yn Guradur Cynorthwyol Rhaglenni Cyhoeddus gydag Artes Mundi.

Soniwch wrthym am y modd y byddech yn mynd i'r afael â'ch gwaith a'r rôl. Defnyddiwch eich gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau blaenorol a phresennol gan roi enghreifftiau sy'n dangos sut y byddech yn cymhwyso'r rhain at syniadau, gwerthoedd a dulliau gweithio sy'n berthnasol i'r rôl.

Fel arweiniad i strwythuro'ch datganiad, efallai yr hoffech ystyried ambell un neu bob un o'r cwestiynau isod.

- Pam rydych chi'n gwneud cais am y swydd hon?
- Soniwch wrthym am eich angerdd/ymrwymiad at ddiwylliant a'r celfyddydau
- Beth rydych yn ei fwynhau am ddysgu pethau newydd ac ymgymryd â heriau?
- Sut fyddwch chi'n mynd ati i flaenoriaethu tasgau?
- A oes gennych ddulliau penodol ar gyfer cynllunio a datrys problemau?
- Ym mha ffyrdd ydych chi'n gweithio gyda phobl eraill ac yn annibynnol?

Yn gyffredinol, ni ddylai'ch datganiad fod yn hirach na dwy ochr A4 mewn ffont 11pt fan lleiaf. Neu, fel y crybwyllir yn y canllaw, gellir cyflwyno hwn ar ffurf fideo neu recordiad sain. Os byddwch yn defnyddio'r dull yma, ni ddylai fod yn hirach na 10 munud.

Os fyddwch chi'n penderfynu cyflwyno fideo neu recordiad sain, gwnewch yn siŵr fod cyn lleied o sŵn yn y cefndir â phosib. Peidiwch ag ychwanegu effeithiau eraill at y cyflwyniadau hyn – dim ond siarad yn uniongyrchol ac yn glir â'r microffon neu'r camera. Gall recordiadau fideo a sain greu ffeiliau mawr a allai fod yn anodd eu hanfon drwy e-bost felly anfonwch

ddolenni a chyfrineiriau i'ch ffeiliau naill ai ar YouTube, Vimeo neu Soundcloud neu eu e-bostio atom gan ddefnyddio Wetransfer ar opportunities@artesmundi.org gyda "Curadur Cynorthwyol Rhaglenni Cyhoeddus" yn y pennawd.

Sylwch, dyma leoliadau pob un o'r artistiaid sydd ar y rhestr fer – rydym yn eich annog i ystyried hyn gan y bydd gofyn i Gynhyrchwyr Ymgysylltu deithio i'r lleoliad y mae'r artist dan sylw yn arddangos ynddo:

- Mae Rushdi Anwar yn arddangos yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
- Mae Carolina Caycedo yn arddangos yn Oriel Davies, y Drenewydd
- Mae Alia Farid yn arddangos yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
- Mae Naomi Rincón Gallardo yn arddangos yn Chapter, Caerdydd
- Mae Taloi Havini yn arddangos ym Mostyn, Llandudno
- Mae Nguyễn Trinnh Thi yn arddangos yn Oriel Gelf Glynn Vivian, Abertawe
- Mae Mounira Al Solh yn arddangos yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

| Cyfeirnod<br>At ddefnydd swyddfa yn unig |
|---|

## Cyflogaeth gyfredol neu ddiweddaraf (Gyda chyflog neu'n ddigyflog)

| Enw a chyfeiriad y cyflogwr | |
|---|---|
| Teitl y swydd | Dyddiadau'ch cyflogaeth |
| Cyfnod rhybudd sydd ei angen os o gwbl | |
| Rhowch fraslun byr o'ch prif ddyletswyddau a/ neu gyfrifoldebau | |

## Gwybodaeth o Gymraeg llafar neu ieithoedd eraill. Nodwch yr iaith a'r lefel (e.e. mynediad, sylfaen, canolradd, uwch, hyfedrus)

Nid oes angen ail iaith i'r swydd hon

| |
|---|
| |

## Cyflogaeth arall a gwaith gwirfoddol (Gyda chyflog a/neu ddigyflog)

Rhestrwch y diweddaraf yn gyntaf

| O:<br>I: | Enw a chyfeiriad y cyflogwr | Rôl a chyfrifoldebau | Rhesymau am adael/ symud ymlaen |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |

## Addysg a Hyfforddiant

Rhowch fanylion unrhyw gymwysterau a gafwyd a’r rheiny yr ydych yn ceisio amdanynt ar hyn o bryd ac unrhyw hyfforddiant rydych chi wedi’i gyflawni neu sy’n parhau.
Rhestrwch y diweddaraf yn gyntaf

| Ysgol/ Coleg/ Prifysgol/ Darparydd | Pynciau a graddau a/neu deitl y cwrs | Dyddiadau derbyn |
|---|---|---|
| | | |

## Gwirio

Cadarnhaf, hyd y gwn i, fod y wybodaeth uchod yn gywir.

Cadarnhaf nad ydw i mewn addysg llawn-amser (12 awr neu ragor o astudio ffurfiol yr wythnos)

Cadarnhaf fod gen i hawl i weithio yn y DU

Deddf Diogelu Data
Noder pan fyddwch yn llofnodi'r ffurflen hon ei bod yn rhoi caniatâd iddi gael ei defnyddio ar gyfer y broses recriwtio. Cedwir yr holl fanylion yn gyfrinachol.

Llofnodwyd: Dyddiad:

Noder y bydd yn rhaid cwblhau ein Ffurflen Monitro Cyfleoedd Cyfartal ar wahân ac ni fydd yn cael ei defnyddio at lunio rhestr fer, yn unol â'n Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Bydd cwblhau hon yn helpu Artes Mundi yn eu hymrwymiad i fod yn gyflogwr cyfleoedd cyfartal.

## Canolwyr

Rhowch fanylion dau ganolwr, y naill yn gyflogwr presennol i chi neu'ch cyflogwr diweddaraf os nad ydych mewn gwaith ar hyn o bryd. Gallai'r llall fod yn rhywun a all fynegi barn broffesiynol ar eich gwaith a'ch gallu i berfformio'r swydd yr ydych yn gwneud cais amdani.

Ni fyddwn yn cysylltu â chanolwyr cyn cyfweliad.

| | |
|---|---|
| Enw | Enw |
| Teitl swydd | Teitl swydd |
| Enw sefydliad | Enw sefydliad |
| Cyfeiriad | Cyfeiriad |
| Rhif Ffôn Cyswllt<br><br>E-bost Cyswllt | Rhif Ffôn Cyswllt<br><br>E-bost Cyswllt |
| Ers pryd rydych wedi nabod y person yma a sut? | Ers pryd rydych chi'n nabod y person yma a sut? |

## Diolch yn fawr am eich diddordeb yn Artes Mundi ac am gymryd yr amser i gwblhau'r ffurflen gais yma